**Urddas a Gofal Hanfodol:** **Cynllun Gwella**

**Ysbyty:** **Ysbyty Eryri, Lôn Parc, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2YE**

**Ward/Adran:** **Padarn a Peblig**

**Dyddiad yr arolygiad:** **11 a 12 Rhagfyr 2014**

| Rhif Tudalen | Argymhellion | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlenni / cyfnod |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflenwi hanfodion gofal | | | |
| 8 | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth gyfoes ar gael i'r cleifion.<br><br>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cyflwyno amrywiaeth ehangach o ffyrdd cyfathrebu, er enghraifft arwyddion darluniadol, ar gyfer cleifion sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol. | Bydd y raciau gwybodaeth/gwybodaeth presennol ym mhob adran a ward yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth honno yn gyfredol ac yn berthnasol.<br><br>1) Arwyddion darluniadol yr ysbyty i'w hadolygu a dull cyson o weithredu i'w gytuno ar gyfer y wardiau a'r adrannau (defnyddio adolygiad o amgylchedd ward yr Athro Bob Woods fel canllaw).<br>2) Arwyddion i gynnwys toiled/ystafell ymolchi/ystafell wely/ystafell fwyta/cawod ac ati<br>3) Dylid hefyd ystyried cyflwyno goleuadau a chilfannau cod lliw fel ffordd o gynorthwyo cleifion dementia. | Metron Ardal<br><br>Metron Ardal mewn cydweithrediad â'r tîm amlddisgyblaethol a'r nyrs arwain yn yr adran dementia | Cwblhawyd<br><br>30 Gorffennaf 2015 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 4) Datblygu achos busnes i bennu'r anghenion a nodir uchod, gan gynnwys asesiad sylfaenol a chostiadau.<br>5) Cyflwyno'r daflen "Dyma Fi" i helpu'r cyfathrebu gyda chleifion sydd â dementia. | Metron Ardal<br><br>Rheolwyr ward | 31 Mai 2015<br><br>Cwblhawyd |
| 10 | Dylai'r bwrdd iechyd wella'r system o fonitro cysur a phoen y cleifion (Ward Peblig). | Teclyn asesu poen i'w gyflwyno i gleifion ar Ward Peblig.<br><br>Nyrs rheoli meddyginiaethau i drefnu bod staff Ward Peblig yn nodi'r wybodaeth glinigol ddiweddaraf o ran asesu/rheoli poen.<br><br>Adolygiad gan gymheiriaid o ddiogelwch cleifion ac o archwiliad ansawdd i'w gynnal fel sylfaen ar gyfer perfformiad o ran rheoli meddyginiaethau.<br><br>Ymarferydd nyrsio o'r tîm ymyrraeth aciwt i gynnal sesiwn addysgu gyda staff Ward Peblig ar gyfer cyflwyno'r siart tymheredd, pwls ac anadl newydd, gan gynnwys y teclyn asesu poen. | Rheolwr y ward<br><br>Metron Ardal/Rheolwr y ward<br><br>Metron Ardal annibynnol<br><br>Tîm Ymyrraeth Aciwt | Cwblhawyd<br><br>31 Mai 2015<br><br>Cwblhawyd<br><br>Cwblhawyd |
| 12 | Gwella'r modd o gydlynu amserau bwyd, gan gynnwys cyfleusterau golchi dwylo cyn prydau, system i ddynodi pa gleifion sydd angen cymorth neu'r rhai y cyfyngwyd ar faint o hylif cânt ei yfed. | Cyflwyno system hambwrdd coch i gleifion sydd angen cymorth gyda bwyd.<br><br>System caead goch ar jygiau dŵr i'w cyflwyno ar Ward Peblig ar gyfer cleifion y cyfyngwyd ar faint o hylif gânt ei yfed.<br><br>Hancesi gwlyb i'w cynnig cyn ac ar ôl prydau bwyd. | Rheolwr y ward<br><br>Rheolwr y ward<br><br>Rheolwr y ward | 30 Ebrill 2015<br><br>30 Ebrill 2015<br><br>Cwblhawyd/Yn parhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Sicrhau bod cofnodion sy'n ymwneud â'r hylifau a'r prydau a gymerir gan gleifion yn cael eu cofnodi a'u monitro'n briodol. | Cynnal archwiliad bob tri mis am 12 mis a chymharu canlyniadau cofnodi faint o hylifau a bwyd mae'r cleifion yn ei gymryd ag anghenion asesedig y cynllun gofal, a throsglwyddo'r wybodaeth i'r staff. Bydd hyn yn cael ei gynnal yn ychwanegol i'r archwiliad sicrhau ansawdd Ward i Fwrdd. | Rheolwr y ward | 30 Ebrill (archwiliad cyntaf) Gorffennaf/ Hydref, Rhagfyr/Mawrth wedi hynny |
| | **Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | |
| 16 | Sicrhau bod therapyddion yn cadw cofnodion sy'n adlewyrchu'n gywir y gwasanaeth adsefydlu, gan gynnwys y gwasanaeth a ddarperir. | 1) Mae'r protocol dogfennau gwasanaethau therapi galwedigaethol wedi'i rannu â'r holl staff, gan nodi'r safonau sy'n ofynnol.<br>2) Archwiliad blynyddol o ran cadw cofnodion i'w gwblhau.<br>3) Diweddariadau da yn y cofnodion i'w darparu ar gyfer holl staff therapi lleferydd ac iaith.<br>4) Cynnal archwiliadau rheolaidd trwy'r broses goruchwylio rheolwyr o fewn y gwasanaeth.<br>5) Staff ffisiotherapi/podiatreg i gael eu hatgoffa o safonau cadw cofnodion. Archwiliad blynyddol o nodiadau i gael ei gynnal eto ym mis Ebrill 2016. | Prif reolwr therapi galwedigaethol | Mehefin 2015 |
| 16 | Adolygu'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn gyffredinol er mwyn lleihau'r oedi wrth weithredu materion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cleifion mewnol yn Ysbyty Eryri. | Cyfarfodydd tîm rheoli'r ysbyty i gael eu cynnal bob dau fis gyda phob swyddog disgyblu perthnasol yn bresennol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r gwaith o ail-strwythuro'n parhau o fewn y bwrdd, ac nid ydynt yn gallu diffinio'r strwythur rheoli a'r strwythur clinigol ar lefel ysbyty cymunedol. Mae'r cyfarwyddwr ardal a'r cyfarwyddwyr | Metron Ardal<br><br><br><br>Cyfarwyddwr/Nyrs Ardal | Cwblhawyd/ yn parhau<br><br><br><br>Mehefin 2015 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | nyrsio wedi'u penodi, a byddant yn dechrau ar 1 Mai 2015, ac yna bydd y strwythurau'n cael eu hadolygu ym mis Mai/Mehefin. | | |
| 16 | Adolygu'r cynlluniau tymor hir ar gyfer darparu gwasanaethau cleifion mewnol yn Ysbyty Eryri a sicrhau bod y lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau yn ddigonol at y diben hwn. | Cynigir y bydd Ysbyty Eryri yn ganolfan strôc benodol i ogledd-orllewin Cymru.<br><br>Mae proffiliau'r staff nyrsio a therapi wedi'u hadolygu yn unol â chanllawiau Cymdeithas Strôc Prydain.<br><br>Bydd y newid i fod yn ganolfan strôc benodol yn cael ei gadarnhau gan ddarpariaeth therapi<br>a thîm ardal newydd. | Cyfarwyddwr Ardal<br><br><br><br><br>Cyfarwyddwr Ardal | Gorffennaf 2015<br><br>Cwblhawyd<br><br><br>Gorffennaf 2015 |
| 17 | Sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ynghylch gweithdrefn gwyno'r ysbyty ar gael i gleifion. | Yn rhan o'r adolygiad o wybodaeth i gleifion, bydd y weithdrefn gwyno a sut i fynegi pryder yn cael eu harddangos mewn mannau priodol o amgylch yr ysbyty.<br><br>Dylai ffolder wybodaeth i gleifion fod ar gael wrth ochr pob gwely, a dylai gynnwys y wybodaeth ofynnol ganlynol:<br>1. rhif ffôn yr ysbyty<br>2. rhif ffôn y ward<br>3. amseroedd ymweld ac unrhyw gyfyngiadau<br>4. rhestr o grwpiau staff allweddol sy'n gweithio yn yr ysbyty a manylion adnabod<br>5. mynediad at eiriolwyr<br>6. manylion cyswllt/ymweliadau crefyddwyr<br>7. amseroedd prydau bwyd, a threfniadau ar gyfer cynorthwyo cleifion i fwyta ac yfed<br>8. sut i fynegi pryder | Gweinyddwr Ardal<br><br><br><br><br>Gweinyddwr Ardal | 30 Ebrill 2015<br><br><br><br><br>30 Ebrill 2015 |

| | Cyflenwi gwasanaethau diogel ac effeithiol | | | |
|---|---|---|---|---|
| 18 | Sicrhau bod strategaethau rheoli risg sy'n dilyn digwyddiadau difrifol yn gynaliadwy ac yn cael eu monitro. | 1) Drysau diogelwch wedi'u gosod.<br>2) Gweithwyr cymorth dementia ar gael i roi cymorth un i un os oes angen – yn enwedig ar gyfer helpu cleifion dryslyd i leoli eu hunain wrth iddynt gyrraedd/gael eu trosglwyddo i'r ysbyty.<br>3) Gweithio tuag at y lefelau staffio diogel a argymhellir.<br>4) Cynnal archwiliadau ansawdd a diogelwch – (adolygiadau gan gymheiriaid) a rhannu'r canlyniadau yn ystod cyfarfodydd rheoli'r ysbyty gan alluogi gweithredu'n gyflym er mwyn lleihau'r risg o ddigwyddiadau difrifol a dangos y gwersi a ddysgwyd. | Metron | Cwblhawyd |
| 19 | Ystyried pa hyfforddiant arbenigol sy'n ofynnol er mwyn cyflenwi gwasanaethau Ysbyty Eryri ac i helpu staff i ddiwallu'r grŵp o gleifion penodol hwnnw. | Yr holl staff i gael adolygiad perfformiad.30% yw'r gyfradd cydymffurfiad ar hyn o bryd.<br><br>Cynllun hyfforddiant ar gyfer y gweithlu i'w ddatblygu ar gyfer yr uned i gynnwys.<br>1. Amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed<br>2. Hyfforddiant ar drefniadau diogelu rhag colli rhyddid ac ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol<br>3. Modiwlau Strôc<br>4. Ymwybyddiaeth o Ddementia<br>5. Rheoli poen<br>6. Dysffagia<br>7. Claf Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol | Rheolwr y Ward/ Metron Ardal/ Rheolwr Therapi<br>Rheolwr y Ward/ Metron Ardal/ Rheolwr Therapi | Mawrth 2016<br><br>Mehefin 2015 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | (NEWS)/claf sy'n dirywio<br>8. Modiwlau gofal lliniarol<br>9. Anhwylder symud (clefyd Parkinson, sglerosis ymledol, clefyd niwronau motor) | | |
| 20 | Gwella'r system o archwilio cyffuriau a reolir. | Nyrs Rheoli Meddyginiaethau i adolygu'r trywydd archwilio presennol o gyffuriau a reolir. | Nyrs Rheoli Meddyginiaethau | Mai 2015 |
| 20 | Sicrhau bod cofnodion rhoi meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gyflawn a bod trywydd archwilio clir ar gael ar gyfer meddyginiaethau a wrthodwyd gan gleifion. | Adolygu'r canllawiau rheoli meddyginiaethau gyda'r nyrs arwain mewn rheoli meddyginiaethau o ran cofnodi cyffuriau a wrthodwyd.<br><br>Technegydd fferyllol i archwilio'r cofnodion cyffuriau a wrthodwyd bob wythnos a hysbysu rheolwr y ward/metron.<br><br>Adolygiad gan gymheiriaid o ddiogelwch cleifion ac o archwiliad ansawdd i'w ddefnyddio i fonitro problemau o ran rheoli meddyginiaethau.<br><br>Technegydd fferyllol i fod yn aelod o dîm rheoli'r ysbyty a hysbysu'r fforwm o'r problemau o ran rheoli meddyginiaethau. | Metron Ardal<br><br>Technegydd Fferyllol<br><br>Metron Ardal<br><br>Metron Ardal | Mai 2015<br><br>Mai 2015<br><br>Mai 2015<br><br>Cwblhawyd/Yn parhau |

**Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd:**

**Enw (llythrennau bras): ............Christine Lynes...............................................................**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **...............Pennaeth Cysylltiol Staff Nyrsio .....................................** |
| **Llofnod:** | **.........................................................................................................** |
| **Dyddiad:** | **......................9.4.15..........................................................................** |